**EPT-05-01 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 21 Mawrth 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 4:20 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans (eitem 1) | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd |
| Keith Bush | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Bob Macey (eitem 1) | Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| Michael Trickey (eitem 3) | Yr Is-adran Cynllunio Ariannol |
| Ian Thomas (eitem 3) | Yr Is-adran Cynllunio Ariannol |
| ***Yn bresennol:*** | Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Paul Loveluck (eitem 3) | Cadeirydd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| John Lloyd Jones (eitem 3) | |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Juliette Selby | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, a hysbysodd y pwyllgor fod:

- Yr ymchwilydd annibynnol i safle claddu sbwriel Nantygwyddon, David Purchon, wedi cael cyfarfod adeiladol iawn gydag Arweinydd, Dirprwy Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yr wythnos flaenorol ac wedi cytuno ar amserlen ar gyfer cyfraniad Rhondda Cynon Taf i'r ymchwiliad. Yr oedd Rhondda Cynon Taf wedi rhoi tystiolaeth yn y sesiwn cyhoeddus a gynhaliwyd yn gynharach yn y dydd, ac yr oedd sesiynau pellach wedi'u trefnu ar gyfer 3 ac 11 Ebrill. Yr oedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Purolite yn ceisio eu cydweithrediad gyda'r ymchwiliad, ac yr oeddynt wedi cytuno i gwrdd â David Purchon ar 23 Mawrth i drafod eu cyfraniad. O gofio na fydd y sesiynau cyhoeddus i gyd wedi'u cwblhau cyn y cyfarfod nesaf, cytunwyd mai ar 9 Mai y câi'r adroddiad cynnydd nesaf ei ystyried;

- Byddai'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn dod i'r cyfarfod nesaf ar 4 Ebrill i gyflwyno ei agenda strategol. Yr oedd Ann Hemmingway, cynrychiolydd Cymru ar fwrdd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, wedi cael gwahoddiad.

- Ar ôl cytuno yn y cyfarfod diwethaf ar y blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad polisi, yr oedd gwaith wedi'i gomisiynu gan ymgynghorydd arbenigol ar ansawdd, safon ac

asesiad y strwythurau trefniadol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Yr oedd y swyddogion wedi cynnig comisiynu astudiaeth desg gan ymgynghorwyr annibynnol o strwythurau trefniadol rhanbarthol yn yr UE a'r DU, a fyddai'n rhoi sylfaen i'r pwyllgor er mwyn asesu gwahanol opsiynau. Cytunodd y pwyllgor i gomisiynu'r astudiaeth.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datgan buddiannau**

1.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5, a gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:

- Mick Bates - partner mewn busnes ffermio;
- Geraint Davies – aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a fferyllydd.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-05-01 (p1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn yr adroddiad, rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y materion canlynol:

- Cynllun Trafnidiaeth Werdd – yr oedd holiadur archwiliad teithio wedi ei roi i aelodau'r Cynulliad a'r staff;

- Adolygiad pum mlynedd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur – yr oedd cam cyntaf yr adolygiad o drefniadau rheolaeth ariannol a pholisi y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi'i gyhoeddi ar 16 Mawrth. Câi copi o'r crynodeb gweithredol a thestun llawn yr adroddiad ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor;

- Strategaeth Adnoddau Dwr – yr oedd y Gweinidog wedi lansio 'Adnoddau Dwr ar gyfer y Dyfodol: Cymru' y bore hwnnw, sef strategaeth fframwaith Asiantaeth yr Amgylchedd i reoli adnoddau dwr yng Nghymru dros y 25 mlynedd nesaf.

2.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cynllun Trafnidiaeth Werdd – croesawai'r aelodau y cynllun, ond yr oeddynt yn poeni bod y diffyg trafnidiaeth integredig yng Nghaerdydd yn rhwystr rhag gostwng lefel y defnydd a wneir o geir i deithio i'r gwaith. Awgrymwyd y dylai'r Cynulliad geisio gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr eraill i alw am wasanaethau cyhoeddus mwy mynych ac uniongyrchol;

- Rheoliadau Ansawdd Aer – yr oedd asesiad costau a buddion wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad a byddai yna gyfle i'r diwydiannau yr effeithir arnynt godi unrhyw bryderon

ynglyn ag effaith y Rheoliadau, sy'n rhoi Cyfarwyddebau'r UE ar waith, yn ystod yr ymarferiad ymgynghori. Yr oeddid yn ymdrin ag effaith tagfeydd traffig yng nghynlluniau rheoli ansawdd aer yr awdurdodau lleol. Yr oedd Cynllun Newid yn yr Hinsawdd i Gymru yn cael ei ddatblygu fel rhan o raglen y DU, a'r disgwyl oedd y byddai ar gael ym Mehefin;

- Llifogydd – teimlai'r aelodau fod adnewyddu amddiffynfeydd rhag llifogydd yn flaenoriaeth. Er bod chwistrelliad o adnoddau wedi'i ddarparu ar gyfer gwaith atal llifogydd nad yw'n waith brys, prin yw'r cynlluniau sydd wedi'u sefydlu, ac nid oedd yn debygol y byddid yn manteisio ar yr adnoddau cyn 2002-03 ar y cynharaf. Bu adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar lifogydd yn Lloegr yn feirniadol o gyflwr yr amddiffynfeydd. Er bod 35-40% o strwythurau atal llifogydd newydd yn Lloegr wedi'u barnu yn weddol neu'n waeth yn Lloegr, nodwyd mai tua 15% oedd y ffigwr yng Nghymru, gyda ffigwr tebyg i Loegr o 35% o amddiffynfeydd traddodiadol rhag llifogydd yn weddol neu'n waeth.

- Taliadau digolledu cefnffyrdd – yr oedd peth pryder ynglyn ag oedi cyn gwneud taliadau digolledu, ac nad oedd y broses yn dryloyw. Cytunodd y Gweinidog i roi manylion y cynllun digolledu i'r aelodau ynghyd â ffigyrau ar pa mor brydlon y ceir penderfyniad ar hawliadau;

- Grantiau cyfleusterau cludo nwyddau – yr oedd yr aelodau'n siomedig bod cyn lleied wedi manteisio ar y grantiau, a byddent yn codi'r angen i fynd ati'n egnïol i annog prosiectau newydd gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn eu cyfarfod nesaf;

- Adnoddau dwr – yr oedd yna beth pryder ynglyn â'r ffaith bod Wessex Water yn dod yn gyfrifol am garthffosiaeth mewn rhannau o Gymru. Nodwyd bod Dwr Cymru wedi rhoi'r gwasanaethau hyn allan i dendr yn dilyn yr adolygiad prisiau diwethaf. Yn fwy cyffredinol, gan fod WPD/Glas Cymru yn bwriadu gosod mwy o waith allan ar dendr, yr oedd OFWAT yn cynnig amodau i sicrhau y byddai'r cyfrifoldeb cyfreithiol am wasanaethau yn aros gyda WPD/Glas Cymru.

2.3 Nododd y pwyllgor fod adnoddau wedi'u trosglwyddo, fel a nodwyd yn yr adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 19.

***Gweithredu:***

- *Y Gweinidog dros yr Amgylchedd i roi manylion y cynllun digolledu cefnffyrdd i'r aelodau ynghyd â ffigyrau ar pa mor brydlon y ceir penderfyniad ar hawliadau*

**Eitem 3: Adolygiad pum mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru – adroddiad interim drafft** - EPT-04-01 (p 2)

3.1 Cyflwynodd Michael Trickey ac Ian Thomas y papur, a wahoddai'r pwyllgor i fynegi barn ar gasgliadau'r adroddiad interim drafft a pha un y dylid newid y cylch gorchwyl ar gyfer ail gam yr adolygiad.

3.2 Nodir isod y prif bwyntiau y cyfeiriwyd atynt yn ystod y drafodaeth:

- Dadansoddi opsiynau – nododd y pwyllgor fod yr adolygiad yn cael ei gynnal cyn yr adolygiad o Asiantaeth yr Amgylchedd, a gaiff ei arwain gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Teimlai'r aelodau y byddai angen i'r dadansoddiad opsiynau yn adolygiad y Cyngor Cefn Gwlad gymryd y casgliadau o adolygiad yr Asiantaeth i ystyriaeth, ac unrhyw adolygiadau eraill perthnasol sydd ar y gweill ar hyn o bryd, cyn y gallent fod yn siwr bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi dod i gasgliad pendant ynglyn â'r opsiynau strwythurol ar gyfer y tymor hwy;

- Integreiddio – câi'r cysylltiadau rhwng y Cyngor Cefn Gwlad a chyrff cysylltiol eu dangos ar ffurf diagram yn yr adroddiad terfynol;

- Sesiynau pwyllgor – i'r dyfodol byddai'r pwyllgor yn ceisio trefnu sesiynau gydag CCNC am eu cynlluniau corfforaethol mewn modd cyd-drefnus, yn hytrach na chanolbwyntio ar waith cyrff unigol.

3.3 Gofynnodd yr aelodau am adolygu'r cylch gorchwyl er mwyn cynnwys:

- Cwestiwn amlycach, ar wahân, yn ymdrin ag i ba raddau y mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cyfrannu at ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ac i ba raddau y mae'n annog hynny (pwysleisiodd y Gweinidog ei hymrwymiad hi i roi datblygu cynaliadwy wrth graidd cylch gorchwyl a chyfrifoldebau pob CCNC);

- Asesiad o'r posibiliadau i'r Cyngor Cefn Gwlad ddatblygu partneriaethau mwy agos a gweithio ar y cyd â chyrff eraill.

3.4 Cytunodd y pwyllgor y dylai ail gam yr adolygiad fynd rhagddo ar sail yr adroddiad interim, yn amodol ar y newidiadau a awgrymwyd i'r cylch gorchwyl. Cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau'n derfynol, yr oedd yr aelodau am gymryd casgliadau'r adolygiadau cysylltiol sydd ar y gweill i ystyriaeth, yn fwyaf penodol FMPR Asiantaeth yr Amgylchedd.

***Gweithredu:***

- *Y tîm adolygu i newid y cylch gorchwyl ar gyfer ail gam yr adolygiad*
- *Y tîm adolygu i gyflwyno nodyn ar oblygiadau'r Ddeddf Iawnderau Dynol o ran opsiynau*
- *Y tîm adolygu i gynnwys diagram i nodi swyddogaethau CCNC sy'n gysylltiedig â'i*

*gilydd, a’r cysylltiadau rhyngddynt, yn yr adroddiad terfynol.*

**Eitem 4: Adolygiad Polisi o Drafnidiaeth Gyhoeddus: cyflwyniadau**

4.1 Gan fod cyflwynwyr Age Concern Cymru a Llais Ifanc wedi anfon eu hymddiheuriadau y bore hwnnw, cafodd yr eitem hon ei chanslo.

**Eitem 5: Cofnodion cyfarfod 7 Mawrth – EPT-04-01 (min)**

5.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 4 Ebrill yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2001**